Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Parc Aberdâr

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Parc Aberdâr yn ysgol groesawgar a chynhwysol. Mae arweinwyr a staff yn meithrin perthnasoedd cryf yn yr ysgol a'r gymuned. Mae ganddynt ymrwymiad cadarn i welliant parhaus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn meithrin ethos tîm pwrpasol.

Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo'u gweledigaeth yn effeithiol, sef, 'Pob plentyn, pob cyfle, pob dydd,' gan sicrhau ffocws ar anghenion disgyblion unigol, monitro'u cynnydd yn ofalus a darparu cymorth effeithiol, lle mae angen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

Mae gan arweinwyr a staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad a dysgu disgyblion, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd parchus â disgyblion a staff. Mae athrawon yn cynllunio gwersi difyr ac mae disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig. O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n dda, yn gofyn cwestiynau ystyriol, ac yn datblygu i fod yn siaradwyr huawdl. Maent yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen ac ysgrifennu, ac erbyn iddynt adael yr ysgol, mae disgyblion yn ddarllenwyr rhugl ac yn ysgrifenwyr effeithiol sy'n cymhwyso'u medrau yn annibynnol ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol, ac mae disgyblion hŷn yn esbonio'u hymresymu yn glir. Mae medrau digidol disgyblion yn gwella'n effeithiol dros gyfnod. Mae arweinwyr a staff yn modelu'r Gymraeg yn gyson ac yn effeithiol, gan helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu hyder wrth siarad Cymraeg.

Mae disgyblion yn cyfrannu eu syniadau at gynlluniau athrawon ar gyfer dysgu, ond mae lleiafrif o athrawon yn gor-gyfarwyddo gwersi, gan gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion feithrin eu medrau dysgu'n annibynnol, a chyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae llawer o athrawon yn darparu targedau clir ac adborth adeiladol, sy'n helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddeall eu cryfderau a sut gallant wella'u gwaith. Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys, ac mae athrawon yn defnyddio profiadau dysgu i gynorthwyo disgyblion i ddeall materion hanesyddol, moesol, a chymdeithasol, gan gynnwys amrywiaeth a newid hinsawdd, yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi barn disgyblion ar agweddau ar ei gwaith, ac mae cyfleoedd arwain yn magu eu hyder ac yn hybu eu medrau cydweithredol. Mae'r ysgol yn monitro a hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb da yn effeithiol. Mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol defnyddiol ar gyfer staff ac yn dechrau darparu cyfleoedd i staff rannu arfer effeithiol ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn cynnal gwerthusiadau gwerthfawr o waith yr ysgol ond nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith gwelliant ysgol ar gynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn mynd ati i gefnogi'r ysgol i sicrhau

bod diwylliant diogelu cadarn ac effeithiol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Mireinio prosesau gwerthuso i ganolbwyntio'n agos ar effaith y gwelliannau ar gynnydd disgyblion

A2 Datblygu cyfleoedd ymhellach i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2025